



Gadael Undeb Ewrop: Hysbysu gwasanaethau awdurdodau lleol a mudiadau'r trydydd sector sy'n ymwneud â mewnfudwyr o Ewrop

Pa hawliau sydd gan ddinasyddion Undeb Ewrop ar ôl y refferendwm?

1. **Bydd gan ddinasyddion gwledydd Undeb Ewrop yr un hawliau yn y Deyrnas Gyfunol o hyd** gan y bydd y Deyrnas Gyfunol yn rhan o Undeb Ewrop am ryw amser i ddod tra bo'n trefnu i ymadael.¹
2. Bydd gan ddinasyddion gwledydd Undeb Ewrop hawl i weithio, astudio a derbyn budd-daliadau yn y Deyrnas Gyfunol yn ôl y rheolau presennol. Fe fyddan nhw'n cael teithio'n rhydd yn Undeb Ewrop nes y bydd deddfau newydd yn cymryd lle'r rhai presennol.² Mae disgwyl y bydd hynny'n digwydd ddwy flynedd ar ôl dyddiad dechrau proses Cymal 50 Cytundeb Lisbon.³ Dyw'r Deyrnas Gyfunol ddim wedi dechrau'r broses eto a'r disgwyl yw y bydd yn gwneud hynny yn ystod yr hydref pan fydd prif weinidog newydd wrth y llyw.

Oes angen i ddinasyddion Undeb Ewrop ddiogelu eu hawliau nhw?

3. Dim eto. Mae Prif Weinidog Llywodraeth San Steffan wedi dweud na fydd unrhyw newidiadau eto ynglŷn â hawliau dinasyddion gwledydd Undeb Ewrop sy'n byw yn y Deyrnas Gyfunol nac yn hawliau dinasyddion y Deyrnas Gyfunol sy'n byw yng ngwledydd Undeb Ewrop.
4. **Fydd hawliau dinasyddion Undeb Ewrop sy'n byw yn y Deyrnas Gyfunol yn ôl statws 'pobl gymwys' ddim yn newid cyn y bydd Llywodraeth San Steffan yn trefnu i adael Undeb Ewrop.** Ystyr 'pobl gymwys' yw'r rhai sy'n:
 - gweithio, yn astudio, yn hunangyflogedig, yn hunangynhaliol neu'n chwilio am waith;
 - byw gyda pherthynas (cymar, partner sifil, plentyn/wŷyr dibynnol, tad-cu/mam-gu dibynnol⁴) a chanddo statws rhywun cymwys;
 - cael byw yma yn rhinwedd hawl preswyl⁵ rhywun cymwys nad yw'n rhan o'r teulu mwyach o ganlyniad i farw, ymadael neu chwalu'r berthynas.⁶

¹ BBC (June, 2016) Reality check: 'Do I need a new passport?' and other Brexit questions

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-eu-referendum-36619817>

² Citizens Advice Bureau Brexit – how it affects you? <https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-rights/brexit/brexit/>

³ HM Government (February, 2016) The project for withdrawal from the European Union

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/504216/The_process_for_withdrawing_from_the_EU_print_ready.pdf

⁴ Home Office (March, 2016) Apply for an EEA family permit <https://www.gov.uk/family-permit/eligibility>

⁵ Home Office (October, 2015) Prove your rights to live in the UK as an EU citizen <https://www.gov.uk/eea-registration-certificate>

⁶ Home Office (April, 2015) Family members of European Economic Area (EEA) nationals who have retained the right of residence

5. **Mae'n aneglur sut y bydd cytundeb yr ymadael a chytundebau eraill yn y dyfodol yn effeithio ar hawliau dinasyddion gwledydd Undeb Ewrop yn y Deyrnas Gyfunol.** I gadarnhau eu hawliau presennol, mae modd iddyn nhw ofyn am dystysgrif sy'n cadarnhau bod gyda nhw hawl i fyw yma (dylai'r rhai sy'n byw yma ers dros bum mlynedd ofyn am gerdyn preswlydd parhaol). Mae rhagor ar wefan y Swyddfa Gartref: <https://www.gov.uk/eea-registration-certificate>
<https://www.gov.uk/apply-for-a-uk-residence-card/permanent-residence-card>
6. Mae nifer o fudiadau gwirfoddol a gwasanaethau cyfreithiol (megis Cyngor ar Bopeth) yn cynnig cynghorion a chymorth yn rhad ac am ddim ynglŷn â llenwi ffurflenni ac ati. **Dim ond darparwr cofrestredig sy'n cael cynnig cynghorion am fewnfudo.** Dyma chwiliadur i ddod o hyd i ddarparwr o'r fath yn eich ardal: www.gov.uk/find-an-immigrationadviser/search-for-an-adviser (gallai rhai godi tâl am wasanaethau).
7. **Does rhaid i ddinasyddion Undeb Ewrop feddu ar dystysgrif neu gerdyn i brofi bod gyda nhw hawl i fyw yn y Deyrnas Gyfunol ar hyn o bryd.** Codir tâl ar bawb sy'n cyflwyno cais am dystysgrif neu gerdyn o'r fath.

Troseddau atgasedd a cham-drin hiliol

8. Yn ôl y cyfryngau, mae nifer yr achosion o atgasedd neu hiliaeth yn erbyn pobl o wledydd Undeb Ewrop a phobl eraill o dras leiafrifol wedi cynyddu yn sgîl y refferendwm. Mae swyddogion heddluoedd a llywodraethau'r deyrnas wedi beirniadu ymddygiad o'r fath⁷ a mynnu i'r ymosodiadau ddod i ben.

Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, ddatganiad ar 27^{ain} Mehefin:

Does dim byd o gwbl wedi newid yn statws tramorwyr sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Bu croeso iddyn nhw bob amser – cyn datganoli a chyn Undeb Ewrop. Mae Cymru yn wlad groesawgar, a rhaid inni gofio hynny. Mae'n ofynnol ar bawb – ni waeth sut y pleidleisiodd yr wythnos ddiwethaf – i wrthsefyll rhywun sydd o'r farn bod ganddo rwydd hynt bellach i gam-drin pobl o dras neu genedl wahanol. Does dim hawl o'r fath gan neb a dylai unrhyw un sy'n dioddef o achos y cyfryw gam-drin roi gwybod amdano i'r heddlu yn ddiymdroi. Bydda i'n anfon llythrau heddiw at bedwar comisiynydd materion plismona a throseddu Cymru gan ofyn iddyn nhw fod yn effro i'r sefyllfa gyfnewidiol hon a chynnig cymorth priodol i bob cymuned mae atgasedd wedi effeithio arni.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/488451/Retained_Rights_v2_0

⁷BBC (June, 2016) *PM condemns 'despicable' post-EU referendum hate crimes* <http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-eu-referendum-36643213>

Migration Yorkshire sydd wedi llunio'r daflen hon. Mae Partneriaeth Strategol Materion Mewnfudo Cymru wedi ychwanegu gwybodaeth, adnoddau a dolenni sy'n ymwneud â Chymru. Mae rhagor o wybodaeth gan anne.hubbard@wlqa.gov.uk

Dyma'r datganiad cyflawn:

<http://gov.wales/newsroom/firstminister/2016/160627cabinetstatement/?lang=en>

Llythyr gan Carl Sargeant, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gymunedau a Phlant, 5^{ed} Gorffennaf 2016



CSargeant.LETTER.English.JULY.pdf



CSargeantletterWelsh.july.pdf

9. Dylai'r rhai sy'n profi neu'n gweld troseddau atgasedd neu gam-drin rhywiol dynnu sylw'r heddlu ato trwy ffonio 101 (999 mewn argyfwng), cyrchu http://report-it.org.uk/your_police_force neu gysylltu â Stop Hate UK (0800 138 1625).

Ar y llaw arall, mae modd cysylltu â'r canlynol:

<http://www.reporthate.victimsupport.org.uk/> Victim Support Cymru (canolfan sy'n cynnig cymorth ynglŷn â throseddau atgasedd). Ffôn: 03003031982

<http://www.sewrec.wales/> Cyngor Cydraddoldeb y De-ddwyrain: 01633 250006

<http://www.refweb.org.uk/> Race Equality First, Caerdydd: 029 2048 6207

<http://www.sbrec.org.uk/> Cyngor Cydraddoldeb Bae Abertawe: 01792 457 035

<http://www.nwren.org> Cyngor Cydraddoldeb y Gogledd, Conwy: 01492 622 233

<http://tellmamauk.org/>

Mae 'Tell MAMA' yn cynorthwyo Moslemiaid sydd wedi profi atgasedd yn ogystal â mesur a monitro digwyddiadau yn erbyn Moslemiaid. Does dim bwriad iddo gymryd lle'r heddluoedd, fodd bynnag. Felly, ffoniwch 999 mewn argyfwng.

Ffôn: 0800 456 1226 E-bost: info@tellmamauk.org
SMS: 0115 707 0007 WhatsApp: [0734 184 6086](https://www.whatsapp.com/business/profile/07341846086)

Trydar: @tellmamauk,

Rhagor o adnoddau a dolenni

AIRE CENTRE – *Elusen gyfreithiol arbenigol.*

Gwybodaeth am ganlyniad y refferendwm a'r goblygiadau:

<http://airecentre.org/data/files/resources/40/Information-Note-on-BREXIT-The-AIRE-Centre-01.07.16.pdf>

Migration Yorkshire sydd wedi llunio'r daflen hon. Mae Partneriaeth Strategol Materion Mewnffudo Cymru wedi ychwanegu gwybodaeth, adnoddau a dolenni sy'n ymwneud â Chymru. Mae rhagor o wybodaeth gan anne.hubbard@wlqa.gov.uk